# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**2023 dsc 4**

## RHAN 5

BYWYD GWYLLT

### 45 Trosolwg o'r Rhan

(1) Mae'r Rhan hon yn diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p. 69).

(2) Gwneir hyn—

(a) i wahardd y defnydd (gan gynnwys defnydd trwyddedig) o fagl neu unrhyw atalydd cebl arall at y diben o ladd neu drapio anifail gwyllt, a'r defnydd o fagl neu unrhyw atalydd cebl arall mewn unrhyw fodd arall sy'n debygol o anafu anifail gwyllt,

(b) i wahardd y defnydd o drap glud at y diben o ladd neu gymryd anifail, a defnyddio trap glud mewn unrhyw fodd arall a fyddai'n debygol o ddal anifail, ac

(c) i addasu'r gwaharddiad ar ddefnyddio trapiau, unrhyw ddyfais drydanol i ladd neu stynio, neu unrhyw sylwedd gwenwynig, sylwedd a wenwynwyd neu sylwedd llesgáu, fel ei fod yn gymwys pan fo eu defnydd yn debygol o niweidio anifail gwyllt.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 45 mewn grym ar 17.10.2023, gweler **a. 56(2)(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Adran 45.